

## Gweithiwr Cymorth Anabledd Dysgu

Cyflog £24,790 - £26,001 / Graddfa G02

Sifftiau cysgu i mewn ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

*Cartrefi ar draws Sir y Fflint*

Llawn Amser / Rhan-amser

**Parhaol, Amrywiaeth o oriau contract ar gael**

Mae'r Tîm Gofal yn cefnogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw bywydau boddhaus yn eu cymuned. Rydym ni'n cefnogi pobl heb brofiadau, gan hybu eu hannibyniaeth a meithrin eu sgiliau byw o ddydd i ddydd, yn cynnwys gofal personol.

Mae'n rhaid i chi feddu ar sgiliau cyfathrebu da a bod yn hunan-ysgogol gyda'r gallu i ysgogi eraill. Bydd gennych chi gymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 neu'n fodlon gweithio tuag ato o fewn cyfnod amser penodol. Bydd ein tîm yn eich cefnogi chi i ddatblygu drwy raglen hyfforddiant a bydd yn rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gofyn i chi weithio fel rhan o dîm ar sail rota gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gall y rôl hefyd gynnwys sifftiau cysgu i mewn, a delir ar raddfa'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym yn cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc, yn cynyddu i 41 diwrnod • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd gwaith-bywyd • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth gweithwyr am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

Ar gyfer y swydd hon rydym ni'n fodlon trafod trefniadau gweithio rhan-amser a rhannu swydd.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs am y swydd, cysylltwch â:
Darren Rhodes, Rheolwr Tîm Anableddau Dysgu ar darren.rhodes@flintshire.gov.uk
01352 704572 neu yn Gymraeg 01267 224923

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council